**CYNGOR TREF DOLGELLAU**

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Mawrth 4, 2025 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Ywain Myfyr (Maer)
Y Cynghorydd Bob Gunton (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr John Cadwaladr, Nia Evans, Jo Checkley, Sion Edwards, Branwen Rhys Dafydd, Nia Wyn Evans, Jessica John, Llinos Rowlands, Peter Jones,Dyfrig Siencyn
Mr Rhys Williams – Clerc

**C.83.2024-2025 SESIWN CYHOEDDUS**

Annabel yn cynrychioli Pwyllgor Carnifal Dolgellau fel sylwebydd am gyfnod o'r Cyfarfod

**C.84.2024-2025 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Peter Jones a Heilyn Williams

**C.85.2024-2025 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau

**C.86.2024-2025 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR CHWEFROR 4, 2025**

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod.

**C.87.2024-2025 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

1.1 **MATERION A GODWYD O GOFNODION BLAENOROL**

1. **Coed Ffynnon Fair**
   **Cyflwynwyd**: Dyfynbrisiau pellach wedi ei dderbyn ar gyfer gweddil y gwaith atgyweirio pellach yn dilyn hysbyseb cyhoeddus .Y swm dan sylw yw £7,776 (gan gynnwys TAW)

   **Penderfynwyd:** Derbyn y pris yma oddiwrth y contractor David Bradley (timber Valley Services) . Hefyd, Y Clerc i ohebu gyda Cwmni Yswiriant y Cyngor ynghylch a'r achos yma o safbwint y posibilrwydd o gyflwyno cais iawndal. Y clerc hefyd i atgoffa y Contractwr Richard Britland i gyflwyno prisiau ar gyfer gwaith pellach ar y safle, megis gatiau a polyn newydd

2. **Gofeb Barhaol - Llyn Penmaen**
   **Cyflwynwyd:** Adborth gan y Cynghorydd Nia Evans yn adrodd bod trafodaethau gyda'r Parc Cenedlaethol yn parhau a bod Gohebiaeth pellach i ddilyn oddiwrth y Parc Cenedlaethol
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth gyda diolch.

3. **Problemau Parcio rhwng banc HSBC a Siop Hosbis yn y Sgwâr**
   **Cyflwynwyd:** Dim cynnydd ar y mater yma ar hyn o bryd.
   **:** Derbyn y wybodaeth. Cadw ar yr agenda.

4. **Rhaglen Penderfynwyd Ymrwymiad Cymunedol**
   **Cyflwynwyd: Diweddariad ar pwynt gweithredu o gyfarfod mis Hydref 2023 y Cyngor megis:**

**i) Trefnu ymchwiliad i sefydlu Bwrdd Arddangos penodol i'r Cyngor:**
**Cyflwynwyd:** Dyfynbris wedi ei dderbyn a chadarnhau yng nghyfarfod Mis Chwefror 2025 y Cyngor. Cais am gyngor o flaen llaw vais cynllunio ( os bydd angen ) nawr wedi ei gyflwyno I sylw y Parc Cenedlaethol.
Derbyn y wybodaeth. Cadw ar yr agenda.

**Materion pellach yn codi:**

ii) **Parc Sglefrolio**
Dim i'w adrodd ar y funud.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

iii) **Seti Cyhoeddus – adolygiad**
**Cyflwynwyd:**Adroddiad gan y Maer ar argymhelliadau o safleoedd I sefydlu y 5 Meinciau Newydd. .
**Penderfynwyd:** Derbyn y cynllun ac I symud ymlaen gyda'r Gwaith yma.Bydd costau pellach ar gyfer sefydlu y Meinciau yn ddiogel. **Cytunwyd hefyd** I ariannu man waith ailbeintio ar gyfer rhai meinciau pellach oddiamgylch y dref.

iv) **Trwydded Adloniant Cyhoeddus i'r Sgwâr**
Adroddwyd y bydd sylw i gwblhau'r drwydded yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2025.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

v) **Cerbyd yn y Lawnt**
Dim adroddiad pellach wrth law.
**Penderfynwyd**: Y Cyng Dyfrig Siencyn I ddilyn I fynny ar y mater yma.

x) **Rheolau parcio yn y dref gan gynnwys Maes Parcio'r Marian**
Dim adroddiad pellach wrth law.

**xi) Cynllun adfywio canol tref Dolgellau**
**Cyflwynwyd:** Adroddiad o'r Is gyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 26, 2025. Cafwyd trafodaeth a chwestiynnu parthed strategaeth tymor hir y Cyngor Tref. Derbyniwyd hefyd gwybodaeth ynghylch ffynhonellau amrywiol i gyflwyno ceisiadau am grantiau ar gyfer prosiectiau unigol. Bydd y Cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Mis Mawrth 2025

**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

**xii) Goleuadau Nadolig 2025**
**Cyflwynwyd:** Adroddiad gan y Cyng Bob Gunton ar syniadau pellach ar gyfer 2025 gan gynnwys newidiadau oddiamgylch y palmant waelod o dan Ty Siamas. Trafodaeth gyda Cyngor Gwynedd ar y gweill.

**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

**C.88.2024-2025 SEFYLLFA ARIANNOL**

Derbyniwyd a chadarnhawyd y sefyllfa ariannol oddiwrth y Clerc

**C.89.2024-2025 SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU**

1. **<u>Adroddiadau aelodau'r Cyngor Tref</u>**

i) **Y Cynghorydd Ywain Myfyr –** Adroddiad Ysgrifenedig i ddilyn **Cytunwyd** i ddanfon neges o gydymdeimlad i'r Teulu o Dafydd Elis – Thomas Arweinydd Cyntaf Senedd Cymru ac Aelod Seneddol gweithgar i Ardal Meirionnydd a Dwyfor

ii) Y Cynghorydd Jessica John -Adborth o'r cyfarfod is grwp rhaglen adfywio canol y dref a gynhaliwyd ar 26.02.2025. Manylion cyfarfodydd pellach i ddilyn.

**ii)** **Y Cynghorydd Bob Gunton** - wedi mynychu cwrs hyfforddi ar gyllideb llywodraeth lleol asawl cwrs pellach ar y gorwel

**iii)** **Y Cynghorydd Nia Evans** - gwaith 'Lle yn y Dref' yn parhau i fynd o nerth i nerth. Ystyriaeth yn cael ei roi i sefydlu swydd i cydgordio gweithgareddau / ceisiadau ariannol i'r dyfodol.Myfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor i chwarae rhan mewn dosbarthu pecynnau bwyd

**iv)** **Y Cynghorydd Jo Checkley –** Gwaith ynglyn a blodau yn y dref. Nad oes blychau blodau pellach yn bodoli wrth arwyddion gefeillio y dref. **Penderfynwyd:** Awdurdodi I'r cyng Jo Checkley sefydlu blychsu newydd. Rhannwyd gwybodaeth ar gofnodion diweddar Partneriaeth Dolgellau.

v) **Y Cynghorydd John Cadwaladr** – gwaith ynglwm a Ymddiriedolaeth Dr Daniel Williams.

vi) **Y Cynghorydd Sion Edwards** – Canlyniadau da wedi ei dderbyn oddiwrth Estyn ar gyfer Coleg Meirion Dwyfor gan gynnwys yr adran myfyrwyr gyda anghenion arbennig.

**vii)Y Cynghorydd Jessica John** – wedi mynychu cyfarfod yn ymwneud parthed Arloesi Dolgellau. Yn ymwneud a threfnu cyrsiau hyfforddiant ffilmio i'r ifanc.Gwaith gyda Canolfan Teulu y dref yn parhau. Cynllun i sefydlu plac hanesyddol drwy grwp yr Aran ar y gweill

viii) **Y Cynghorydd Llinos Rowlands** -
Yn ymdrechu i ail sefydlu grwp Darganfod Dolgellau, cyfarfod i'w drefnu. Gyda Diddordeb i gymeryd drosodd rheolaeth a chyfrifoldeb am Toiledau Cyhoeddus y Marian - **Y Cyng Dyfrig Siencyn i drefnu cyfarfod gyda swyddogion perthnasol o Gyngor Gwynedd.**

**C.90.2024-2025 ADRODDIADAU CYNGHORWYR GWYNEDD SIROL**

**Y Cyng Dyfrig Siencyn –** Mae cyllid oddiamgylch £3.9 miliwn pellach ar gael ar gyfer sefydlu o'r newydd Canolfan Dolfeurig. Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi derbyn cyllideb ar gyfer rhaglen THI cyfres 3. Cyngor Gwynedd yn adolygu strategaeth buddsoddi a benthyg Treth Cyngor ar gyfer 2025-2026 am gynyddu 8.9 %

**C.91.2024-2025 GOHEBIAETH**

Derbyniwyd yr ohebiaeth canlynol:

1. **Ymddiriedolaeth Dr Daniel Williams – Adroddiad Blynyddol 2023-2024**
   **Penderfynwyd:** Derbyn y gwybodaeth

2. **Cais am gyfraniad ariannol - Ras y Gader 2025**

   **Penderfynwyd:** Cyfrannu £500

3. **Heddlu Gogledd Cymru –** PCSO Mr Gareth Jones – Cynnig i gyfarfod a'r Cyngor Tref

   **Penderfynwyd:** Gwahodd y swyddog i gyfarfod Mis Ebrill 2025 y Cyngor